**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**22 Medi 2014**

## COSTAU'R GWEITHREDU DIWYDIANNOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gwariant a fu hyd yn hyn mewn perthynas â streiciau Undeb yr FBU.

## Cefndir

2 Ers y streic gyntaf ar 25 Medi 2013, mae Undeb yr FBU wedi galw 32 o gyfnodau o weithredu diwydiannol hyd at, a chan gynnwys, y streic ddiwethaf ar 16 Awst 2014.

3 Er mwyn i'r Gwasanaeth gyflawni ei drefniadau parhad busnes (sy'n sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu ei wasanaethau brys ac argyfwng), mae'n rhaid cael trefniadau wrth gefn ar gyfer pob cyfnod o weithredu diwydiannol. Yn anochel, mae'r trefniadau hyn yn arwain at gostau ychwanegol i'r Gwasanaeth.

## Gwybodaeth

4 Mae'r tabl atodedig yn rhoi dadansoddiad o'r costau ychwanegol a fu hyd at, a chan gynnwys, 31 Gorffennaf 2014. Mae'n hawdd adnabod rhai costau, ond mae'n anos adnabod rhai eraill, a defnyddiwyd amcangyfrifon ar gyfer yr adroddiad hwn.

5 £208,990.66 yw'r gost ychwanegol i'r Gwasanaeth am y trefniadau wrth gefn yn ystod y gweithredu diwydiannol. Mae hyn yn cymryd ystyriaeth o'r arbedion a wnaed drwy dynnu o gyflogau gweithwyr am streicio.

## Argymhelliad

6 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

**Costau Gweithredu Diwydiannol hyd at 31 Gorffennaf 2014**

| | Cyflogau | Dim cyflogau | |
|---|---|---|---|
| **Tynnu o gyflogau oherwydd streicio** | | | |
| 2013/14 | -30,581.89 | | |
| 2014/15 | -74,841.07 | | |
| **CYFANSWM** | **-105,422.96** | | |
| | | | |
| **Costau Milwrol** | | | |
| Costau milwrol a dalwyd yn 2013/14 | | 100,835.57 | |
| Amcan o'r anfoneb sy'n weddill | | 44,642.70 | |
| **CYFANSWM** | | **145,478.27** | |
| **Costau canolog sy'n cael eu monitro gan yr Adran Gyllid** | | | |
| Treuliau teithio 14/15 | | 3,965.21 | |
| Amcan o'r treuliau teithio 13/14 | | 2,000.00 | |
| Cynhaliaeth | | 3,527.64 | |
| Llety | | 1,128.94 | |
| Amcan o'r tanwydd ar gyfer cerbydau'r gwasanaeth | | 1,250.00 | |
| **CYFANSWM** | | **11,871.79** | |
| | | | |
| **Costau Adrannol** | | | |
| Amser cyflawn/System RDS | 26,691.87 | | |
| Gweithrediadau | 2,463.51 | 59,928.11 | |
| Y Fflyd | 1,122.78 | 21,948.75 | |
| TGCh | 6,679.79 | 15,522.19 | |
| Cyfathrebu Corfforaethol | 3,170.31 | 2,081.16 | |
| Hyfforddi | 3,783.76 | 848.00 | |
| Adnoddau Dynol | 0.00 | 5,921.10 | |
| Yr Ystafell Reoli | 5,806.44 | 0.00 | |
| Yr Adran Gyllid | 1,095.77 | 0.00 | |
| **CYFANSWM** | **50,814.24** | **106,249.32** | |
| | | | |
| | -54,608.72 | 263,599.38 | |
| **CYFANSWM Y COSTAU** | | | **208,990.66** |
| | | | |
| **Cost Cyfle (*Opportunity Cost*) Cyfarfodydd Rheoli Parhad Busnes** | | | 15,996.17 |